



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA/KW/1261/21

Lynne Neagle AS
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

19 Mawrth 2021

Annwyl Lynne,

Yn eich adroddiad '*Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach*' fe wnaethoch alw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'r broses o weithredu'r fframwaith dull ysgol gyfan ac adrodd i'r Pwyllgor cyn diwedd y Senedd bresennol. Cafodd yr ymrwymiad hwn ei dderbyn yn ein hymateb ar 2 Rhagfyr 2020.

Fel y gwyddoch, cyhoeddwyd y *Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol* ar 15 Mawrth i gyd-fynd â dychweliad plant hŷn i addysg. Ein ffocws cychwynnol yn ystod y misoedd nesaf fydd codi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith a chefnogi partneriaid wrth ei weithredu. Yn hyn o beth, datblygwyd cynllun cyfathrebu gyda'r nod o:

- Gyfathrebu â chynulleidfaoedd i sicrhau bod y dull ysgol gyfan yn cael ei gyfathrebu'n glir.
- Cynnwys dysgwyr a'r gweithlu wrth gyfleu egwyddorion y fframwaith.
- Annog partneriaid / ysgolion / rhanddeiliaid i rannu ein 'hasedau' a'n negeseuon allweddol.

Datblygwyd animeiddiad ar gyfer plant a phobl ifanc i'w gynnwys mewn rhestr chwarae bwrpasol ar You Tube. Mae hyn yn cynnwys astudiaethau achos wedi'u ffilmio lle mae athrawon o ysgolion ledled Cymru yn esbonio beth mae dull ysgol gyfan yn ei olygu iddyn nhw. Rydym hefyd yn defnyddio cylchlythyr addysg a hyfforddiant Dysg a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo lansiad y canllawiau, gyda'r hashnod - #DullYsgolGyfan.

Datblygwyd pecyn briffio i randdeiliaid a lluniwyd rhestr ddosbarthu gynhwysfawr. Rwyf wedi ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Addysg awdurdodau lleol i dynnu sylw at y lansiad a gofynion y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fframwaith. Mae'r llythyr hwnnw hefyd wedi'i rannu'n ehangach (gyda Chonsortia Rhanbarthol, CLILC, Gweithgor Llywodraethwyr Ysgol, Gwasanaethau Ieuencid ac eraill).

Yn ogystal, bydd sesiwn frifio i arweinwyr cyfathrebu mewn sefydliadau rhanddeiliaid megis Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, Colegau Cymru, Gyrfa Cymru a'r Academi Arweinyddiaeth Addysgol. Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg a minnau hefyd wedi ysgrifennu ar y cyd at Gadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i dynnu sylw at y Fframwaith a gwaith cysylltiedig y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc ac i egluro rôl y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrth weithredu'r ddau. Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i hyrwyddo'r Fframwaith drwy anfon llythyr at Brif Weithredwyr y GIG, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phenaeithiaid Gwasanaethau Plant.

Fe wyddoch ein bod wedi darparu cyllid i Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn penodi cydgysylltwyr gweithredu i weithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i gefnogi gweithredu ar lefel leol. Mae fy llythyr at yr awdurdodau lleol yn cyfeirio at eu gwaith ac un o'r camau gweithredu allweddol cyntaf fydd sefydlu grwpiau llywio lleol i hyrwyddo'r agenda ysgol gyfan yn rhanbarthol.

Rwyf hefyd wedi gofyn i swyddogion weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Plant i godi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith a monitro ei effaith. Cyfarfu swyddogion â'u cymheiriaid yn swyddfa'r Comisiynydd yn ddiweddar i drafod sut y gellir defnyddio eu rhwydweithiau nhw i godi ymwybyddiaeth. Mae gan y Comisiynydd nifer o rwydweithiau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo'r Fframwaith, gan gynnwys Grwpiau Llysgenhadon Ysgolion a Chymunedol o blant a phobl ifanc, a bydd y rhain yn fodd i ni gysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc. Mae'r Comisiynydd hefyd yn cwrdd ag Arweinwyr Lles Ysgolion a Llywodraethwyr a chytunodd i ddefnyddio'r cyfleoedd hyn i hyrwyddo'r Fframwaith ymhellach. Buom hefyd yn trafod y posibilrwydd o weithio gyda swyddfa'r Comisiynydd a chael eu cymorth i wneud rhywfaint o waith gwerthuso cychwynnol o'r nifer sy'n manteisio ar y cynllun, efallai yn yr hydref. Byddai modd iddynt ein helpu i archwilio pethau fel a yw plant yn ymwybodol o'r Fframwaith; a yw eu hysgol wedi eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau lleol; ac a ydynt yn teimlo bod eu hysgol yn gweithredu ar eu barn.

Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i archwilio pa adnoddau pellach y gallwn eu datblygu i gefnogi'r broses weithredu. Fe wyddoch ein bod wedi cytuno o'r blaen i ddarparu ystod o adnoddau proffesiynol i athrawon. Mae'r rhan fwyaf bellach wedi'u darparu drwy'r Sefydliadau Addysg Uwch a bydd y gweddill yn cael eu darparu yn ystod yr wythnosau nesaf. Dylai pob adnodd fod ar Hwb erbyn diwedd Ebrill/dechrau Mai. Rydym hefyd gweithio gyda'r byrddau Iechyd i ystyried y posibilrwydd o ddatblygu adnoddau pellach a all ategu'r cwricwlwm newydd a'r dull ysgol gyfan, megis adnoddau sy'n gysylltiedig ag anhwylderau bwyta a delwedd corff cadarnhaol i ddysgwyr ac athrawon. Roeddem hefyd wedi bwriadu comisiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu pecyn cymorth i ysgolion o ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu i gyd-fynd â'r Fframwaith. Cafodd y gwaith hwn ei ohirio er mwyn ailgyfeirio staff Iechyd Cyhoeddus Cymru i weithgarwch arall yn ymwneud â

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Covid-19. Fodd bynnag, mae lechyd Cyhoeddus Cymru bellach wedi nodi eu bod mewn sefyllfa i ailgydio yn y gwaith hwn ac rydym yn gobeithio y bydd y pecyn ar gael erbyn yr haf.

Byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod yn ariannu'r gwaith o ymestyn yr Arolwg lechyd a Lles Myfyrwyr i ysgolion cynradd. Yn dilyn yr astudiaeth ddichonoldeb, y cam nesaf yw dechrau treialu mewn ysgolion cynradd yn ystod 2021-22. Bydd hyn yn gyfle i ystyried sut mae'r Fframwaith wedi'i weithredu a hynny gyda thrylwyredd academaidd. Yn ystod 2021-22 byddwn hefyd yn cynnal yr Arolwg lechyd a Lles Myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd, a gynhelir bob dwy flynedd, a bydd hyn gyfle arall i weld i ba raddau y mae lles yn cael ei gefnogi ac i gasglu barn dysgwyr.

Yn fwy penodol, byddwch yn gwybod ein bod wedi contractio Prifysgol Caerdydd i gynnal asesiad o'r dystiolaeth a'r bylchau yn y dystiolaeth, a bydd modd defnyddio'r asesiad hwn i fesur effaith ein gwaith yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae pandemig Covid-19 wedi effeithio ar hynt yr asesiad hwn a bydd yr adroddiad bellach yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2021.

Gobeithio bod hyn yn eich sicrhau chi ein bod yn ymrwymedig i barhau â'r cynnydd da sydd eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS

Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.